

## Canllawiau - Enwi heolydd a strydoedd newydd

*Deddf Iechyd Cyhoeddus 1925, adrannau 17 i 19*

Canllawiau i ddatblygwyr, cyngorau cymunedol a thref ac unrhyw un y gofynnir iddynt gynorthwyo gydag enwi ffordd neu stryd newydd.

### 1. Datblygiadau newydd

Cyfrifoldeb y Cyngor yw penderfynu ar enwau strydoedd newydd ac mae ganddo'r gair olaf ar enwau heolydd neu strydoedd newydd; fodd bynnag, mae'n cydnabod pwysigrwydd ystyried barn leol.

Cysylltiadau hanesyddol

Lle bo modd, mae'n well gennym fabwysiadu enw sy'n gyson â threftadaeth a hanes yr ardal; efallai yr hoffech gysylltu â'ch cymdeithas hanes leol i gael help.

### ***A fyddech gystal â chyfeirio at Adran 3 isod i gael mwy o wybodaeth am bwysigrwydd cysylltiadau hanesyddol.***

Os nad oes cysylltiad uniongyrchol, hanesyddol â'r tir sy'n cael ei ddatblygu, yna gellir archwilio ardaloedd cyfagos i gael syniadau.

Lle na ellir pennu cyd-destun hanesyddol, a bod y datblygiad arfaethedig yn cynnwys rhwydwaith o strydoedd, gellir awgrymu thema. Er enghraifft, cymerodd datblygiad diweddar fel thema enwau blodau gwylt sydd wedi'u cynnwys yn y gymysgedd hadau cyfeillgar i weny yn y mae Cyngor Sir Fynwy yn ei ddefnyddio ar ei gylchfannau a'i leiniau ymylon ffordd.








A fyddech gystal â sicrhau bod unrhyw themâu arfaethedig yn cydymffurfio â'r rheolau a amlinellir isod.




### Rheolau sy'n ymwneud ag enwau heolydd newydd

*Mae'r rheolau sy'n llywodraethu enwi strydoedd yn llym; mae enw gwreiddiol yn hanfodol i sicrhau y gellir lleoli eiddo yn gyflym ac yn hawdd.*

Ymgynghorir â'r Rhestr Tir ac Eiddo Lleol (y gronfa ddata leol o gyfeiriadau a strydoedd) i wirio unrhyw wrthdaro neu ddyblygu enwau strydoedd a awgrymir. Mae hefyd yn gonfensiwn y Post Brenhinol mai dim ond un stryd sy'n defnyddio'r un enw ddylai fodoli mewn un dref bost.

Wrth ystyried enwau a / neu themâu, mae angen ystyried y canllawiau canlynol:

-  Lle bo hynny'n bosibl, bydd gan yr enwau strydoedd a awgrymir gyswllt hanesyddol profedig neu leol â'r safle datblygu neu'r ardaloedd cyfagos.
-  Ni all yr enw fod yr un fath ag unrhyw strydoedd sy'n bodoli eisoes yn ardal y cod post (h.y. NP7, NP16 ac ati) neu'n debyg iddo.
-  Dylid osgoi gwahaniaethau trwy ôl-ddodiad yn unig o fewn yr un ardal neu ardal gyfagos, e.e. Rhodfa'r Afalau neu Heol yr Afalau.
-  Ni all yr enw stryd a awgrymir fod yn enw rhywun sydd naill ai'n fyw neu sydd wedi marw o fewn cof byw. Mae hyn oherwydd y gall enwi strydoedd ar ôl unigolion fod yn ddadleuol.
-  Gellir ystyried enwau unigolion hanesyddol sydd â chysylltiad â'r safle datblygu. Er enghraifft, yn ddiweddar defnyddiodd datblygiad yn Y Fenni gyfenwau nyrsys a oedd yn gweithio yn Ysbyty Maindiff yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf.
-  Ni ddylai'r enwau a awgrymir fod yn anodd eu hynganu nac yn lletchwith i'w sillafu er mwyn osgoi dryswch mewn sefyllfa o argyfwng.
-  Dylid osgoi enwau sy'n anaddas yn esthetiaid h.y. Heol y Gwaith Nwy, Rhodfa'r Domen ac ati.

-  Dylid osgoi enwau sy'n gallu camddehongli'n fwriadol h.y. Heol Hoare, Rhodfa Typple, Stryd Quare ac ati.
-  Nid yw enwau a awgrymir y gellid eu hystyried neu eu dehongli fel rhai anwedus, hiliol neu a allai fynd yn groes i unrhyw agwedd ar bolisiau cyfle cyfartal Cyngor Sir Fynwy yn dderbyniol.
-  Dylid osgoi enwau atodol h.y. rhes o adeiladau o fewn stryd a enwir eisoes yn cael ei galw'n '... Teras'.

## 2. Gair i Gall

### Yr hyn y dylech wneud

- ✓ Ymgynghori â'ch cyngor cymunedol neu dref i gael syniadau am gysylltiadau lleol;
- ✓ Ymgynghori â'ch cymdeithas hanes leol;
- ✓ Dewis enw sy'n adlewyrchu hanes y safle neu'r ardal ehangach;
- ✓ Dewis enw sy'n adlewyrchu topograffi'r ardal (ond dim ond os yw'n wreiddiol);
- ✓ Dewis enw gwreiddiol.

### Yr hyn na ddylech wneud

- ✗ Dewis enw sydd yr un fath neu'n debyg i unrhyw enwau sy'n bodoli yn ardal y cod post (h.y. NP7, NP16 NP26, ac ati).
- ✗ Dewis enw sy'n anodd ei ynganu neu'n lletchwith i'w sillafu.
- ✗ Dewis enw ar ôl rhywun sydd naill ai'n fyw neu sydd wedi marw o fewn cof byw.
- ✗ Dewis enw sy'n anaddas yn esthetig neu y gellid ei gamddehongli'n fwriadol.
- ✗ Dewis enw y gellid ei ystyried yn anwedus, hiliol neu a allai fynd yn groes i unrhyw agwedd ar bolisiau cyfle cyfartal Cyngor Sir Fynwy.

### **Gellir cael cyngor neu arweiniad ynghylch cyd-destun hanesyddol neu leol trwy:**

- Gyfathrebu â'r Cyngor Cymuned / Cynghorydd Sir;
- Ymweld â'n gwefan Gwasanaeth Llyfrgelloedd a Gwybodaeth ar <http://libraries.monmouthshire.gov.uk/>;
- Gysylltu â Swyddog Polisi Cydraddoldeb ac Iaith Gymraeg y Cyngor.

## 3. Cysylltiadau hanesyddol ar gyfer heolydd newydd

Mae gan Gyngor Sir Fynwy gyfrifoldeb i warchod treftadaeth y sir; fel y cyfryw, ein nod yw sicrhau bod y polisi a'r canllawiau Enwi a Rhifo Strydoedd sy'n ymwneud â hanes lleol yn cael eu dilyn mor agos â phosibl.

Dyma grynodedb o safbwynt y polisi ar hanes lleol ac enwi strydoedd newydd.

### *Dywed Adran 1.2.4 o bolisi Enwi a Rhifo Strydoedd Cyngor Sir Fynwy:*

*Gan fod gan y Cyngor yr hawl i benderfynu ar enwau strydoedd newydd, mae'n cydnabod pwysigrwydd ystyried barn leol. Y polisi mewn perthynas ag enwau strydoedd newydd felly fydd mabwysiadu enw dwyieithog sy'n gyson â threftadaeth a hanes yr ardal.*

### *Dywed Adrannau 2.1.4 i 2.1.6:*

*Fel sir, mae gan Sir Fynwy gefndir hanesyddol sylweddol ac felly er mwyn sicrhau bod y dreftadaeth hon yn cael ei chadw, rhoddir blaenoriaeth i enwi cynlluniau sydd â chyd-destun hanesyddol neu leol.*

*Os na ellir sefydlu cysylltiad hanesyddol yn uniongyrchol â'r tir sy'n cael ei ddatblygu yna gellir archwilio ardaloedd cyfagos i gael syniadau.*

*Os na phennir unrhyw gyd-destun hanesyddol a lleol, a bod y datblygiad arfaethedig yn cynnwys rhwydwaith o strydoedd, gellir awgrymu thema. Unwaith eto, dylid cymryd gofal i sicrhau bod unrhyw thema arfaethedig yn cwrdd â'r protocolau a gynhwysir yn y ddogfen hon.*

Pwysleisia Adran 2.3.1 ymhellach: *Dylai enwau strydoedd neu eiddo a awgrymir fod â chyd-destun hanesyddol profedig neu leol a chysylltiad yn uniongyrchol â'r safle datblygu neu ardaloedd cyfagos.*

#### **4. Polisi'r Iaith Gymraeg**

Bydd pob enw stryd Saesneg yn cael ei gyfieithu i'r Gymraeg a bydd gan y ddwy fersiwn statws cyfartal. Bydd enwau strydoedd Cymraeg yn Gymraeg yn unig oherwydd anymarferoldeb rhai cyfieithiadau o'r Gymraeg i'r Saesneg.

#### **5. Manylion cyswllt Enwi a Rhifo Strydoedd Cyngor Sir Fynwy**

Os oes gennych unrhyw ymholiadau, ffoniwch 01633 644644 a gofynnwch am Enwi a Rhifo Strydoedd neu e-bostiwch [contact@monmouthshire.gov.uk](mailto:contact@monmouthshire.gov.uk)